RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
74/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
13/07/2023

# Adroddiad Interim Gwerthuso Ymyraethau Digartrefedd

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-83504-164-2

Teitl: Gwerthusiad Llywodraeth Cymru o Ymyraethau Digartrefedd
Is-deitl: Adroddiad Interim

Awduron: Imogen Blood, Sarah Alden, Shelly Dulson & Anita Birchall o Imogen Blood & Associates

Adroddiad Ymchwil Llawn: : Imogen Blood, Sarah Alden, Shelly Dulson, Anita Birchall, ; (2023). Gwerthusiad Llywodraeth Cymru o Ymyraethau Digartrefedd . Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad ymchwil gymdeithasol y llywodraeth rhif 74/2023.
Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-gam-2-digartrefedd-adroddiad-cyntaf

Barn yr ymchwilydd yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Enw: Becca McEwan
Is-adran:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: housingresearchteam@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr tablau....................................................................................................2
Geirfa …………………………………………………………………………………..3
1. Cyflwyniad....................................................................................................5
2. Dull methodolegol .........................................................................................7
3. Canfyddiadau Interim: Atal ac ymyrraeth gynnar ....................................11
4. Canfyddiadau Interim: Blaenoriaethu ailgartrefu cyflym a pharhaol .........15
5. Canfyddiadau Interim: Gweithio mewn partneriaeth....................................23
6. Canfyddiadau Interim: Defnyddio tystiolaeth: Cydgynhyrchu ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau.........................................................................27
7. Canfyddiadau Interim: Dull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn / ystyriol o drawma....31
8. Canfyddiadau Interim: Defnyddio tystiolaeth: Mesur perfformiad ac effaith.............36
9. Crynodeb....................................................................................................39
Cyfeiriadau....................................................................................................40
Atodiad A: Theori Newid ...............................................................................42

**Rhestr tablau**

Tabl 1: Teipoleg atal digartrefedd ..................................................................................12

**Geirfa**

| **Talfyriad / Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Bwrdd Cynllunio Ardal | Mae wedi ei ffurfio o sefydliadau partner sy'n gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu'r cyfrifoldeb dros y canlynol: datblygu, gweithredu a gwella gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, i ddiwallu angen y boblogaeth yn effeithlon ac effeithiol; cyflawni rheolaeth strategol o'r adnoddau ariannol a ddefnyddir i ariannu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau; rhoi goruchwyliaeth gyffredinol o'r gwaith o archwilio ac asesu perfformiad gwasanaethau a gomisiynir i ymdrin â chamddefnyddio sylweddau. |
| Fframwaith EMMIE | Mae'r llythrennau EMMIE yn sefyll dros: *effect, mechanism, moderators, implementation, economic cost*. Mae'n ddull sy'n helpu ymchwilwyr i adnabod yr amrywiaeth o ffactorau cefndirol sy'n effeithio ar y broses o gyflawni prosiectau. |
| ETA | Llety argyfwng dros dro *(Emergency Temporary Accommodation)* |
| HF4Y | *Housing First for Youth* – Ymyrraeth seiliedig ar hawliau i bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth ac yr effeithir arnynt gan ddigartrefedd. Mae'n ymdrin ag anghenion y glasoed a phobl ifanc sy'n datblygu ac yn hwyluso pontio iach i fod yn oedolion tra bod ganddynt le diogel a sefydlog i'w alw'n gartref. |
| HMPPS | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Dulliau Mesur Sêr Canlyniadau | Teulu o ddulliau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer mesur a chefnogi newid. Mae'r Seren wedi ei sylfaenu dri o werthoedd – grymuso, cydweithio ac integreiddio. Mae'r gwerthoedd sy'n arwain y Sêr Canlyniadau yn debyg i |

| | |
|---|---|
| | werthoedd dulliau sy’n canolbwyntio ar yr unigolion, seiliedig ar gryfderau a chydgynhyrchu. |
| RSLs | Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig |
| TA | Llety dros dro |
| Ymyrraeth gynnar sylfaenol | Atal cynnar a mabwysiadu dull sy’n symud y tu hwnt i ymateb adweithiol o dan arweiniad gwasanaethau digartrefedd, at ganolbwyntio ar atal sy’n gweithio ar draws pob sector. |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Chwefror 2022, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Imogen Blood & Associates (IBA) i gyflawni gwerthusiad o ymyraethau digartrefedd yng Nghymru i gefnogi trawsnewid gwasanaethau digartrefedd. Nod y gwerthusiad yw deall effaith a dulliau'r ymyraethau a ariannwyd fel rhan o'r tair rhaglen genedlaethol ganlynol:

- **Cam 2 Digartrefedd**
  Mewn ymateb i'r pandemig, derbyniodd 22 o awdurdodau lleol £5.2 miliwn o gyllid i gyflawni dros 70 o gynlluniau ac iddynt y nod o ddatblygu newid cynaliadwy a sylfaenol i wasanaethau digartrefedd ledled Cymru. Daeth cyllid y prosiect i ben ym mis Mawrth 2021. Cynlluniau peilot oedd rhai prosiectau a lle'r oedd y rhain yn llwyddiannus, maent wedi eu prif-ffrydio i gynlluniau Grant Cymorth Tai awdurdodau lleol.
- **Tai yn Gyntaf**
  Dechreuodd Llywodraeth Cymru ddyfarnu cyllid ar gyfer prosiectau peilot Tai yn Gyntaf yn ystod 2017/18. Mae rhaglen dreigl Grantiau Tai yn Gyntaf bellach yn dyrannu tua £1.9m yn flynyddol i gefnogi prosiectau Tai yn Gyntaf a phrosiectau a arweinir gan dai ar draws saith ardal awdurdod lleol (cyfanswm o wyth o brosiectau, gyda dau ohonynt wedi derbyn cyllid fel rhan o'r peilot gwreiddiol).
- **Cronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref**
  Nod y gronfa hon a lansiwyd yn 2019 yw cefnogi prosiectau sy'n gweithredu dulliau newydd ac arloesol o gartrefu pobl ifanc. Mae'r prosiectau hyn yn benodol ar gyfer pobl ifanc fregus 16-25 sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref neu sy'n ddigartref ar hyn o bryd. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gymeradwyo cyllid i 25 o brosiectau ar gyfer 2019-20. Mae 21 o brosiectau wedi parhau i gael eu hariannu yn 2020-21, 2021-22 a 2022-23.

1.2 Mae'r gwerthusiad yn archwilio effeithiolrwydd ymyraethau digartrefedd yng Nghymru er mwyn deall effeithlonrwydd yr ymyraethau a ariennir ar hyn o bryd tuag at nod digartrefedd strategol Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth Ddigartrefedd a Rhaglen Lywodraethu 2021-2023. Mae IBA yn cyflawni ymchwil sylfaenol ac eilaidd ansoddol a meintiol, gan gynnwys adolygiad o bolisïau, dogfennau a data monitro

perthnasol. Bydd y gwerthusiad yn cynnwys gwaith dadansoddi cost a budd a gyflawnwyd yn y cyfnod yn dilyn yr adroddiad hwn.

1.3 Mae'r gwerthusiad yn cynnwys pedwar prif gam:

- Cyfnod cwmpasu: dadansoddiad dogfennol a chyfweliadau, cyfuno tystiolaeth yn gyflym, adolygiad EMMIE[1]
- Cyfnod cynllunio: datblygu fframwaith gwerthuso a theorïau rhaglenni
- Cyfnod gwerthuso: astudiaethau achos ansoddol, cyfweliadau ac arolygon ansoddol; dadansoddiad cost a budd neu fframwaith cost a budd ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol.
- Cyfnod crynhoi ac adrodd.

1.4 Bydd tystiolaeth o'r adroddiad hwn, law yn llaw ag adroddiad pellach, yn gosod sail ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol a phenderfyniadau ynghylch cefnogaeth i ymyraethau i rwystro a lliniaru digartrefedd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r prif ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yng rhan gynnar y cyfnod Gwerthuso a oedd yn dilyn cwblhau'r cyfnodau Cwmpasu a Chynllunio. Caiff adroddiad terfynol pellach ei gyhoeddi unwaith y bydd y gwerthusiad wedi ei gwblhau, yn ddiweddarach yn 2023.

[1] Mae fframwaith realaidd EMMIE *(effect, mechanism, moderators, implementation, economic cost)* yn ddull sy'n helpu ymchwilwyr i adnabod amrywiaeth o ffactorau cefndirol sy'n effeithio ar y broses o gylfawni prosiectau. Am fwy o wybodaeth gweler Thornton et al (2019)

## 2. Dull methodolegol

2.1 Mae'r gwerthusiad yn seiliedig ar theori ac yn cael ei arwain gan egwyddorion realaidd. Mae'r dull yn adnabod yr hyn sy'n gyffredin ar draws yr rhaglenni, fel a ganlyn:

- Mae iddynt i gyd y nod o rwystro (ailadrodd) a/neu liniaru digartrefedd
- Maent wedi eu bwriadu i gefnogi trawsnewid gwasanaethau digartrefedd trwy, yn sicr yn achos y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc, ychwanegu gwasanaethau newydd at y cynnig lleol.
- Mae gan y mwyafrif bwyslais ar dai / ar ail-gartrefu cyflym, sef, dull seiliedig ar hawliau, lle ceir gwared ar amodoldeb (ee o ymwneud â gwasanaethau cymorth, dangos parodrwydd am dai) a'r nod yw cefnogi a chynnal ymadawiad o ddigartrefedd cyn gyflymed â phosibl.
- Mae thema gyffredin o drosglwyddo rheolaeth, dewis, hawliau a chyfrifoldebau i bobl sy'n profi digartrefedd; mae cymorth yn seiliedig ar gryfderau, yn ystyriol o seicoleg ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Mae iddynt i gyd y nod penodol o sicrhau cymorth asiantaethol, neu ddibynnu ar lwyddo i'w gael yn eu pen draw.
- Mae eu gweithredu wedi cael ei ysgogi gan y pandemig, a/neu bydd y pandemig wedi effeithio arnynt.

2.2 Rhoddodd y canfyddiadau o gyfnod cwmpasu'r gwerthusiad arweiniad thematig i'r gwaith o lunio Theori Newid ar lefel polisi ac ar lefel rhaglen. Yn dilyn unrhyw fireinio o ganlyniad i'r gwerthusiad hwn, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu defnyddio'r Theorïau Newid hyn fel fframwaith ar gyfer gwerthuso ymyraethau yn y dyfodol. Gellir gweld y Theori Newid ar lefel polisi yn Atodiad A.

2.3 Mae'r theori newid ar lefel rhaglen wedi cael ei ddatblygu a'i addasu wrth fynd ymlaen ac mae'n rhoi fframwaith gwerthuso cyffredinol i asesu pedwar math o ddarpariaeth. Mae'r categorïau yn seiliedig ar weithredu'r model/gwasanaeth o fewn y system ailgartrefu cyflym (a ragwelir), a dylai hyn sicrhau hynny ag sy'n bosibl o gyfleoedd i gymhwyso'n strategol yr hyn a ddysgwyd o'n gwerthusiad. Y pedwar math o ddarpariaeth yw:

- Brysbennu ac asesu (gan gynnwys gan, neu ar gyfer, asiantaethau eraill yn ogystal â thai/digartrefedd);
- Cyflenwi tai/mynediad at dai sector rhentu cymdeithasol a phreifat (ee mentrau mynediad i'r Sector Rhentu Preifat, cynlluniau prydlesu, etc);
- Cymorth + tai (wedi ei ddarparu fel pecyn, sef, mewn prosiect tai cymorth pontio) gyda'r nod o hwyluso symud ymlaen (sef cyfyngedig o ran amser);
- Cymorth i aros mewn eiddo (ee cymorth lle bo'r angen, Tai yn Gyntaf; lle nad oes disgwyl y bydd y person yn symud os nad oes arnynt angen / eisiau / yn derbyn y cymorth – mae'r denantiaeth yn un 'brif ffrwd' (heb fod yn gysylltiedig â chymorth) ond efallai nad yw'n barhaol oherwydd gall fod yn y sector rhentu preifat).

2.4 Defnyddir dull astudiaethau achos ar gyfer y gwerthusiad hwn. Nod cynllun yr ymchwil yw dangos yr hyn sydd gyffredin a'r gwahaniaethau sylweddol rhwng anghenion y gwahanol grwpiau oedran o safbwynt y camau hyn o'r daith atal/ailgartrefu cyflym (er y dylid cadw mewn cof fod y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc wedi ei hanelu at bobl 25 oed ac iau).

2.5 Er mwyn gallu profi'r graddau mae'r prosiectau a ariennir yn gydnaws â pholisi Llywodraeth Cymru, mae pob astudiaeth achos yn ystyried pum egwyddor neu thema allweddol a lywodraethir gan y Theori Newid ar lefel polisi, sef:

- Defnyddio tystiolaeth (tystiolaeth data lleol ac ymchwil/gwerthuso) a chydgynhyrchu.
- Rhwystro / ymyrryd cyn gynted â phosibl.
- (Blaenoriaethu) ailgartrefu cyflym a pharhaol (er enghraifft, gallai rhywun fod mewn hostel, ond mae'r pwyslais ar eu helpu i gael / ar ddarparu cymorth i sicrhau'r tebygolrwydd mwyaf o gynnal tenantiaeth).
- Canolbwyntio ar yr unigolyn / ystyriol o drawma.
- Gweithio cydgysylltiedig / mewn partneriaeth.

2.6 Yn yr astudiaethau achos, mae'r tîm ymchwil yn defnyddio fframwaith cydnabyddedig (EMMIE) i hwyluso dealltwriaeth ar sut mae'r cyd-destun lleol, y mecanweithiau, y cymedrolwyr a'r rhwystrau yn dylanwadu ar weithredu ac ar effaith theorïau a themâu y rhaglen. Mae hyn yn ein galluogi ni i lunio cymariaethau

a phrofi damcaniaethau ynghylch y gwahanol ddulliau ac adnoddau sydd eu hangen mewn gwahanol gyd-destunau.

**Diweddariad o'r gwaith maes a gyflawnwyd hyd yma**

2.7 Yn dilyn cam cwmpasu a datblygu Theori Newid ar lefel rhaglen, cynhaliwyd ymchwil sylfaenol ac eilaidd, ansoddol a meintiol, gan gynnwys adolygiad o bolisïau, dogfennau a data monitro perthnasol. Bydd gwaith ar y gwerthusiad hwn yn y dyfodol yn cynnwys gwaith dadansoddi cost a budd a gyflawnwyd yn y cyfnod yn dilyn yr adroddiad hwn.

2.8 Dechreuodd y cyfnod gwerthuso ym mis Hydref 2022. Erbyn adeg ysgrifennu hyn, roedd y tîm ymchwil wedi estyn allan at arweinwyr allweddol mewn 9 safle astudiaeth achos (mae 10 ohonynt i gyd) ac 1 o 3 awdurdod lleol Cam 2 i benderfynu ar drosolwg cyffredinol o'r prosiect neu gyd-destun ac effaith comisiynu. Mae'r cyfweliadau a'r casglu data yn parhau a hyd yma maent wedi cynnwys 31 o staff strategol a gweithredol a thri o bobl â phrofiad bywyd o ran digartrefedd.

2.9 Mae'r adroddiad cyntaf hwn wedi cael ei gynhyrchu ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y gwerthusiad ac mae'n ystyried gwybodaeth a gasglwyd hyd at 6 Mawrth 2022. Mae'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn rhai heb eu cadarnhau oherwydd camau cynnar y gweithgarwch ymchwil.

2.10 Dylid nodi bod y mwyafrif o leisiau sydd wedi bwydo i mewn i'r canfyddiadau ar y cam hwn gan weithwyr proffesiynol gyda mwy o leisiau sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd eto i ddod i weithgarwch ymchwil dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

2.11 Bydd y tîm ymchwil yn cyflawni dadansoddiad manylach o ddata (gan gynnwys codio thematig a phrofi fframwaith y theori newid) fel sail ar gyfer yr adroddiad terfynol unwaith y caiff pob gwaith maes ei gwblhau yn haf 2023. Bydd hyn yn galluogi i gymariaethau gael eu llunio a phrofi damcaniaethau ynghylch y gwahanol ddulliau ac adnoddau sydd eu hangen mewn gwahanol gyd-destunau. Bydd astudiaethau achos byr yn cael eu cynhyrchu ar gyfer pob un o'r 9 safle astudiaeth achos ac yn cynnwys dyfyniadau gan randdeiliaid yn ein hadroddiad terfynol. Mae'r

tîm ymchwil hefyd yn casglu data i gefnogi dadansoddiad cost a budd a fydd yn cael ei drafod yn yr adroddiad gwerthuso terfynol.

# 3. Canfyddiadau Interim: Atal ac ymyrraeth gynnar

## Cyd-destun a throsolwg

3.1 Atal yw'r hyn sydd ar flaen y Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (Llywodraeth Cymru 2019, t.1), sy'n cydnabod 'angen symud llawer mwy o'n ynni ac adnoddau i atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf'. Mae'r strategaeth yn pwysleisio effeithiolrwydd ymyrraeth gynnar, a'r ffaith fod atal yn gofyn am ddull gweithredu system-gyfan.

3.2 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i adolygu digartrefedd yn eu hardal, datblygu strategaethau i atal digartrefedd gan roi help hefyd i'r rheini sydd o dan fygythiad digartrefedd. Mae Deddf Tai Cymru 2014 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i roi cyngor am ddim ac, mewn amgylchiadau penodol, help a llety i bobl sy'n ddigartref, neu o dan fygythiad digartrefedd. Rhaid i'r awdurdod tai lleol weithio law yn llaw ag awdurdodau cyhoeddus eraill, sefydliadau gwirfoddol a phobl eraill, i sicrhau bod y gwasanaethau hyn wedi eu llunio i ddiwallu anghenion grwpiau sy'n wynebu risg penodol o ddigartrefedd (Cyfraith Cymru 2023).

3.3 Bwriad gwasanaethau a gomisiynir gan awdurdodau lleol gan ddefnyddio Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru yw 'cynyddu, ategu a chefnogi' y gwasanaeth digartrefedd statudol, atal pobl rhag dod yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu helpu pobl a allai ddod yn ddigartref ganfod a chadw llety (Llywodraeth Cymru 2020).

3.4 Yn ystod y pandemig, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfres o fesurau na chymerwyd erioed o'r blaen i drechu ac atal digartrefedd, gan gynnwys mesurau cyfreithiol i atal dros dro troi pobl allan o lety rhent cymdeithasol a phreifat (Llywodraeth Cymru 2020b).

3.5 O fis Ebrill 2021 hyd fis Mawrth 2022 roedd cynnydd o 27% yn niferoedd y teuluoedd a gyflwynwyd i awdurdodau lleol Cymru a oedd yn cael eu bygwth gan ddigartrefedd, a lleihad o 11% ar 2020/21 yn y rheini a gafodd eu hasesu fel rhaid digartref a dyletswydd yn ddyledus iddynt i'w helpu i sicrhau llety. O'r rheini a oedd o dan fygythiad digartrefedd, cafodd digartrefedd 67% ohonynt ei atal o leiaf chwe

mis (Llywodraeth Cymru 2022). Er bod y ffigurau hyn yn debygol o gael eu hystumio gan effaith llai o achosion o droi allan yn ystod y pandemig, maent yn awgrymu bod atal cynnar yn gweithio’n dda i lawer o deuluoedd.

3.6 Mae’r Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (Llywodraeth Cymru 2019) yn cynnig y teipoleg canlynol o atal digartrefedd:

**Tabl 1: Teipoleg atal digartrefedd**

| Teipoleg | Disgrifiad/Manylion |
|---|---|
| Sylfaenol | Atal neu leihau risgiau digartrefedd ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol |
| Eilaidd | Atal ar gam cynnar yn canolbwyntio ar grwpiau risg uchel, neu’r rheini sy’n dangos arwyddion cynnar o broblem benodol |
| Trydyddol | Ymyrryd unwaith y bo problem er mwyn ei rhwystro rhag mynd yn waeth |
| Acíwt | Gwario i reoli effaith sefyllfa negyddol iawn – nid yw’n gwneud dim, neu fawr ddim, i atal problemau rhag ailadrodd eu hunain yn y dyfodol |

Ffynhonnell: Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (Llywodraeth Cymru 2019)

3.7 Mae llawer o’r prosiectau a ariennir o fewn y gwaith enghreifftiol gyda phobl sydd eisoes yn ddigartref (gellir dadlau mai ‘atal trydyddol’ yw hyn) sy’n aml yn targedu’r rheini â hanes hir o ddigartrefedd neu ansefydlogrwydd tai, gan gynnwys cysgu allan. Roedd y rheini a oedd yn manteisio ar brosiectau seiliedig ar lety yn tueddu i gael eu hadnabod unwaith roeddent eisoes wedi mynd i mewn i’r system ddigartrefedd statudol, naill ai trwy wneud cais digartref, cael eu symud trwy dai â chymorth, neu adael gofal (yn hytrach na chefnogi rhywun tra maent mewn gofal). Nid yw ‘atal’ yn gymwys ond i’r prosiectau hynny ac iddynt y nod o helpu pobl i adael digartrefedd mewn modd cynaliadwy, sef, yr hyn sy’n groes i’r gwario ‘acíwt’ sydd wedi cael ei ddisgrifio gan Fitzpatrick, Mackie a Wood (2021) fel ‘atal ailadroddus’. Caiff hyn ei ystyried yn yr adran ganlynol ar ailgartrefu cyflym.

3.8 Fodd bynnag, mae amryw o brosiectau'r astudiaethau achos yn ceisio gweithio gyda phobl ar gam cynharach (gellir dadlau mai 'atal eilaidd' yw hyn) er enghraifft, targedu'r rheini sy'n gadael gofal neu garchar, neu gefnogi'r rheini sydd mewn risg o ddod yn ddigartref yn fuan. Caiff y canfyddiadau a ddaw i'r amlwg eu cyflwyno mewn perthynas â gwaith ataliol y prosiectau hyn yn yr adran hon.

**Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o alluogwyr a rhwystrau**

3.9 Mae'r adran hon yn cyflwyno themâu sy'n dod i'r amlwg ar draws yr holl raglenni, er bod gwaith maes manylach wedi cael ei gyflawni ynghylch prosiectau'r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc.

3.10 Mae enghreifftiau addawol o arferion a'r hyn a ddysgir ynghylch beth sy'n gweithio wrth ymwneud â phobl – yn enwedig pobl iau – ar gam gynharach oddi wrth prosiectau'r astudiaethau achos a oedd yn canolbwyntio ar hyn. Roedd un prosiect yn mabwysiadu cyn lleied ag sy'n bosibl o feini prawf atgyfeirio neu hunan-gyfeirio er mwyn adnabod y rheini a oedd mewn risg o ddigartrefedd. Roeddent hefyd yn ffurfio partneriaethau atgyfeirio gydag amrywiaeth helaeth o asiantaethau er mwyn adnabod pobl ifanc a oedd ag unrhyw fath o broblem llety, gan gynnwys y Gwasanaeth Prawf a Gwasanaethau Plant (Timau Gadael Gofal, Ymyrraeth Deuluol, yn gweithio gyda rhieni ifanc mewn risg o golli tenantiaethau / plant mewn gofal yn ogystal â phobl ifanc mae eu trefniadau byw mewn perygl) i ddal unigolion ar gyfnodau pontio allweddol a/neu lle mae tenantiaeth / sefyllfa gartref y gellid ei chynnal.

3.11 Roedd cael yr hyblygrwydd a'r sgiliau i weithio gyda beth bynnag sydd orau i'r unigolyn a chynnig cymorth cyfannol ynghylch hynny – yn hytrach na chanolbwyntio ar y broblem tai (sydd o'u blaenau) yn unig – yn cael ei weld gan staff gweithredol a defnyddwyr gwasanaethau fel y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau parhad canlyniadau atal. Mae enghreifftiau yn cynnwys cynnig amrywiaeth o gymorth gydag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, hyfforddiant tenantiaeth, adeiladu hyder, integreiddio cymunedol, sydd wedi eu teilwra i anghenion yr unigolyn. Mae'n werth nodi fod rhai gweithwyr rheng flaen a gyfwelwyd nad oeddent wedi eu hargyhoeddi o werth cynigion ehangach o dan arweiniad y gymuned mewn atal digartrefedd.

3.12 Mae dysgu o brosiectau allgymorth yn dangos sut y gall cynnig cymorth lle bo’r angen atal mwy o ddigartrefedd yn gynharach – gyda’r rhai a gyfwelwyd yn dweud sut roedd yn rhwystro pobl rhag mynd drwy’r system ddigartrefedd yn gyfan gwbl trwy gefnogi sgiliau’n ymwneud â byw yn annibynnol neu gyfryngu pan oedd perthynas mewn perygl o chwalu.

**Ffactorau systemau ehangach**

3.13 Mae asiantaethau eraill yn deall pa rôl y gallant ei chwarae wrth adnabod y rheini sydd mewn risg o ddigartrefedd ac ymateb i’r sefyllfa. Teimlai rhai cyfranogwyr fod hyn wedi gwella o ganlyniad i’r pandemig. Mae rhywfaint o weithgarwch ar y gweill i godi ymwybyddiaeth fod digartrefedd yn ‘gyfrifoldeb pawb’, nid gwasanaethau digartrefedd yn unig, ee awdurdodau gogledd Cymru yn cynnal digwyddiad ar y cyd yn cynnwys partneriaid gwasanaethau cymunedol a gwirfoddol i ystyried pa ran y gall pob un ei chwarae.

3.14 Dywedodd Tai Cymunedol Cymru fod llawer o’u haelodau sy’n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn buddsoddi’n sylweddol mewn amrywiaeth helaeth o wasanaethau i rwystro tenantiaethau rhag torri i lawr (ee gwneud y mwyaf o incwm, cyngor ar effeithlonrwydd ynni, cymorth tenantiaeth) a’u bod yn gweld galw mawr am y gwasanaethau hyn yng nghyd-destun ôl-Covid / yr argyfwng costau byw.

# 4. Canfyddiadau Interim: Blaenoriaethu ailgartrefu cyflym a pharhaol

## Cyd-destun a throsolwg

4.1 Mae’r Strategaeth Ddigartrefedd (Llywodraeth Cymru 2019) a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (Llywodraeth Cymru 2021) yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i symud i ffwrdd o’r “model ‘grisiau’ o flaenoriaethu ar sail teilyngdod wrth ddarparu gwasanaethau” (Llywodraeth Cymru 2021, t.5), at drawsnewid yr ymateb i ddigartrefedd i un o ‘ailgartrefu cyflym’. Dywed Canllawiau Ailgartrefu Cyflym (Llywodraeth Cymru 2022):

> ‘Dull a gydnabyddir yn rhyngwladol yw Ailgartrefu Cyflym sy'n sicrhau bod pobl sy'n profi digartrefedd yn gallu symud i gartref sefydlog cyn gynted â phosib, yn hytrach nag aros mewn llety dros dro am gyfnodau hir’.

4.2 Mae Tai yn Gyntaf – sydd ymhlith yr hyn mae’r gwerthusiad hwn yn canolbwyntio arno – yn cynrychioli un ffurf o ailgartrefu cyflym i bobl sydd ag anghenion cymorth lluosog a chymhleth yn ogystal â’u hangen am gartrefi.

4.3 Mae dogfennau polisi Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd pontio at ailgartrefu cyflym yn cymryd amser, yn wyneb yr angen i chwyddo’r cyflenwad o dai fforddiadwy – a mynediad atynt – mewn llawer i ardal, a thrawsnewid diwylliant a phrosesau mewn gwasanaethau digartrefedd.

4.4 Roedd yn ofynnol i bob awdurdod lleol symud ymlaen tuag at ddatblygu cynllun pontio at ailgartrefu cyflym erbyn mis Medi 2022 fel rhan o’u Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai. Cefnogwyd hyn gan Ganllawiau Ailgartrefu Cyflym (Llywodraeth Cymru 2022). Y bwriad yw i’r cynllunau gael eu trin fel dogfennau “byw”, y bydd awdurdodau lleol yn parhau i’w haddasu a’u datblygu. Law yn llaw â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i ddatblygu 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd i’w rhentu erbyn diwedd y tymor llywodraethu, ac yn ogystal â lesio eiddo gan landlordiaid trwy Gynllun Lesio Cymru.

4.5 Mae’r pandemig wedi creu cyfleoedd a heriau i’r cyfeiriad strategol hwn. Ar y naill law, mae wedi cyflymu uchelgais a gweithredu ynghylch cyflymder a graddfa atal ac ailgartrefu cyflym; gan gynnwys ac annog partneriaid ehangach mewn diwylliant o ‘wneud beth bynnag sydd ei angen’ (Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd 2020), wrth

gydnabod digartrefedd fel problem iechyd cyhoeddus. Mae oedi troi allan o'r sector rhentu preifat a dyrannu cymdeithasol wedi creu cyfle am bartneriaethau arloesol gyda darparwyr tai. Fodd bynnag, mae wedi golygu hefyd fod awdurdodau lleol yng Nghymru (fel mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig) wedi gorfod datblygu a defnyddio llawer mwy o lety dros dro (Ymchwil y Senedd 2021) ar adeg pan mai'r cyfeiriad strategol oedd symud oddi wrth hyn (Llywodraeth Cymru 2019 a 2022). Rhwng cychwyn y pandemig COVID-19 a diwedd mis Ionawr 2023, mae 32,400 o bobl a oedd gynt yn ddigartref wedi cael eu helpu i lety argyfwng dros dro. Ar 31 Ionawr 2023, roedd 9,410 o unigolion mewn llety dros dro (Llywodraeth Cymru 2023).

**Trafodaeth gysyniadol**

4.6 I staff gweithredol yn benodol, roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch y term 'ailgartrefu cyflym' a rhywfaint o bryder ynghylch ei ddefnyddio.

4.7 Roedd rhai a gyfwelwyd o awdurdodau lleol yn codi pryderon ynghylch y term 'ailgartrefu cyflym' (er nad oedd hyn ynghylch yr ethos sy'n sail iddo) gan fod iddo'r risg o godi disgwyliadau ynghylch pa mor gyflym y gall rhywun 'gael tŷ' os ydynt yn cyflwyno'u hunain fel pobl ddigartref. Roedd darparwyr cymorth yn mynegi pryderon tebyg ynghylch 'cyflym' yn codi disgwyliadau afrealistig yn y 'byd go-iawn' a'r effaith y gall hyn ei gael ar ymddiriedaeth a morâl y rheini maent yn eu cefnogi a all fod yn cael eu gadael yn aros am fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd.

4.8 Roedd diffyg eglurder cyffredinol ynghylch rôl tai â chymorth o fewn system ailgartrefu cyflym a phryderon y gellid datgomisiynu hyn heb gynllunio addas.

**Mynediad at denantiaethau sefydlog: tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o alluogwyr a rhwystrau**

4.9 Fel yr amlygwyd yn y cyflwyniad i'r adran hon, mae ailgartrefu cyflym yn bolisi a fydd yn cymryd amser hir i'w roi ar waith, yn wyneb yr argyfwng tai presennol a diffyg cyflenwad o lety un-person. Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ynghylch sut mae'r rhwystrau hyn yn effeithio ar allu prosiectau i helpu pobl at denantiaethau sefydlog addas a chynaliadwy, ac i ba raddau a sut mae'r rhwystrau hyn yn cael eu goresgyn.

4.10 Teimlai ychydig o weithwyr rheng flaen fod rhai o'r unigolion roeddent yn eu cefnogi 'heb fod yn barod ac angen dysgu bod yn denant', gan awgrymu bod y model 'grisiau' neu linellol, lle mae pobl yn cael eu symud ymlaen trwy leoliadau preswyl hyd nes y gallant ddangos 'parodrwydd am denantiaeth' yn dal wedi ymwreiddio o fewn diwylliannau a systemau.

4.11 Roedd mwyafrif y prosiectau yn mynegi uchelgais i helpu pobl i denantiaethau sefydlog cynaliadwy; fodd bynnag, mae unigolion sy'n gweithio ar y rheng flaen yn gorfod dygymod â system lle mae hyn yn aml yn anodd. Roedd pob prosiect yn adrodd diffyg dewisiadau o ran symud ymlaen.

4.12 Mae rhai modelau prosiectau ac iddynt y nod o gefnogi symud ymlaen cyflym i lety parhaol heb weithio'n unol â'r bwriad oherwydd problemau gyda'r cyflenwad o dai. Er enghraifft, mae prosiect sy'n cynnig fflatiau hyfforddi, a fwriedir am gyfnod o hyd at 18 wythnos i helpu pobl ifanc i lety parhaol, nad yw'n gallu symud pobl ymlaen, mewn rhai achosion am dros flwyddyn yn sgil diffyg llety, sy'n golygu hefyd fod eraill nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r fflatiau hyfforddi.

4.13 Mae cyfweliadau hyd yma yn awgrymu y gall rhwystrau rhag cyflenwad tai gynnwys:

- Rhestrau aros hir am dai cymdeithasol, a pholisïau dyrannu nad ydynt yn blaenoriaethu'r rheini sy'n profi digartrefedd neu mewn risg o ddigartrefedd, sy'n trin llety nad yw'n barhaol a ddarperir gan un prosiect fel "sefydlog" i ddibenion bandio blaenoriaethau, neu osod pobl ifanc ar restr aros ar wahân i'r boblogaeth gyffredinol.
- Pryderon gan gymunedau lleol / aelodau etholedig am bobl sydd wedi profi digartrefedd yn cael eu gweld fel pe baent yn neidio'r rhestr arall am dai

cymdeithasol, neu ynghylch y risg o niwsans gan gymdogion lle mae hanes o amddifadedd lluosog, sy'n arwain at wrthwynebiad i newid polisïau dyfarnu mewn rhai ardaloedd.

- Unigolion a theuluoedd sy'n profi amddifadedd lluosog yn cael eu 'hosgoi' mewn penderfyniadau dyfarnu, yn sgil risgiau canfyddedig gan landlordiaid.
- Fforddiadwyedd rhai anheddau (gan gynnwys biliau cyfleustodau) – caiff cymorthdaliadau gan ddarparwyr a/neu Taliadau Disgresiwn ar Gostau Tai eu defnyddio weithiau, ond maent yn cael eu hystyried fel rhai anghynaliadwy.
- Diffyg llety un ystafell wely mewn ardaloedd mwy gwledig; mae'r polisi cymorthdal ystafell sbâr (a osodwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig) yn gweithredu fel rhwystr rhag dyrannu anheddau mwy i bobl, hyd yn oed lle mae galw is.
- Mae cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus gwael â rhai ystadau / tai yn creu risg anferthol i gynaliadwyedd tenantiaethau i bobl nad oes car ar gael iddynt.
- Landlordiaid sector preifat yn gwerthu eu heiddo neu'n well ganddynt osod i fyfyrwyr neu bobl broffesiynol na phobl sy'n derbyn budd-daliadau.
- Cyfyngiadau oedran ar dai â chymorth a phrosiectau symud ymlaen. Roedd prosiect tai â chymorth sy'n anelu at bobl ifanc yn cyfeirio at fod â phryderon na fyddent yn gallu helpu defnyddwyr gwasanaethau i lety symud-ymlaen addas unwaith maent wedi troi'n 25 oed.
- Problemau lleol sy'n effeithio ar gyflenwad tai, er enghraifft mewn un awdurdod lleol lle mae problem gyda thir halogedig wedi arwain at bob cais cynllunio i ddatblygu neu drosi yn cael ei atal dros dro.

4.14 Er gwaethaf cyllid cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cael ei groesawu'n frwd, roedd rhai a gyfwelwyd a oedd yn cynrychioli awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol yn adrodd am rwystrau ac oedi i ddatblygu a chaffael eiddo o ganlyniad i'r canlynol:

- Costau uwch llafur a deunyddiau oherwydd chwyddiant a Brexit.
- Cyfyngiadau ar ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i brynu eiddo nad ydynt ar y cychwyn yn cyrraedd safonau gofod Ansawdd Tai Cymru neu Lety Dros Dro.

- Graddfeydd amser ar gyfer gwario dyraniadau cyllid cyfalaf heb fod yn cydredeg â'r amser mae'n ei gymryd i adeiladu neu brynu eiddo.

**Integreiddio o fewn system ailgartrefu cyflym: tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o alluogwyr a rhwystrau**

4.15 Hyd yn oed lle mae prosiectau yn dangos modelau addawol o ailgartrefu / atal ailadrodd, nid yw'n ymddangos eu bod o angenrheidrwydd wedi eu integreiddio'n effeithiol o fewn system ailgatrefu cyflym leol ehangach. Fe wnaeth y tîm ymchwil ganfod yr hwyluswyr a'r rhwystrau canlynol rhag hyn.

4.16 Ymwybyddiaeth, awydd a gallu prosiectau i herio amodoldeb ac eirioli'r hawl i gartref i'r rheini maent yn eu cefnogi o fewn systemau ehangach dyrannu tai. Mae'n amlwg fod y cyfnod pontio yn y symudiad at lety mwy parhaol yn cael ei weld fel rhywbeth angenrheidiol, ond nid oedd yn cael ei ddisgrifio bob amser gan staff prosiectau mewn ffordd a fyddai'n awgrymu bod cartref yn cael ei weld fel hawl. Clywsom enghreifftiau lle'r oedd gweithwyr rheng flaen yn normaleiddio a derbyn polisïau 'un cynnig' a'r angen i unigolion brofi eu 'parodrwydd am denantiaeth' ac yn teimlo na allent wneud fawr ddim i ddylanwadu ar rannau eraill y llwybr. Er bod Tai yn Gyntaf a gwasanaethau cymorth dwys eraill yn gymharol newydd, roedd teimlad nad yw'r rhai sy'n llunio penderfyniadau yn llwyr ddeall nac yn ymddiried yn y model cymorth eto i roi cymorth cofleidiol i unigolion a'u galluogi i gynnal tenantiaeth.

4.17 Y graddau mae prosiectau yn gweithredu o fewn partneriaethau ehangach gydag awdurdodau lleol a/neu landlordiaid cymdeithasol unigol. Lle mae gan ddarparwyr cymorth berthynas ffurfiol uniongyrchol â darparwyr tai (ee trwy gais ar y cyd o'r cychwyn, strwythur grŵp neu bartneriaeth sy'n bod eisoes, neu trwy gytundeb lefel gwasanaeth) neu lle mae uwch swyddogion o fewn y darparwr tai yn deall ac yn ymrwymo i werthoedd cynnig prosiect (sef Tai yn Gyntaf), y teimlad oedd bod hyn yn galluogi gwell mynediad at dai. Roedd prosiect a gaiff ei redeg gan sefydliad trydydd sector yn disgrifio'i rwystredigaeth gyda methiant yr awdurdod lleol i ymdrin â gofynion symud ymlaen a oedd wedi cael eu canfod ar gychwyn y prosiect, a'i ddiffyg perthynas uniongyrchol â darparwyr tai eraill (gan gynnwys landlordiaid sector preifat a gwerthwyr tai) y tu allan i'r cyngor. Roedd prosiect arall wedi cytuno

â Landlord Cymdeithasol Cofrestredig tua phum mlynedd yn ôl, ar ôl ei chael yn anodd symud ymlaen trwy ffyrdd eraill cyn hynny. Gall y prosiect bellach fanteisio ar ddatblygiadau tai newydd fforddiadwy i ddarparu dewisiadau symud ymlaen. Roedd prosiect arall â phartneriaethau anffurfiol yn unig â darparwyr tai a oedd yn dibynnu ar gysylltiadau â swyddogion tai unigol.

4.18 Sicrwydd cyllid / cynnig amser-cyfyngedig am gymorth cofleidiol wrth adsefydlu; a gweithgarwch gwasanaethau ehangach (ee iechyd meddwl) lle bo angen. Efallai na fydd cyllid cymorth tymor byr yn ddigonol i dawelu meddwl landlordiaid i gynnig hawliau tenantiaeth ddiogel, yn enwedig i'r rheini sydd ag anghenion lluosog a chymhleth a/neu hanes o broblemau tenantiaeth. Dywedodd Tai Cymunedol Cymru fod diffyg mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ar lefel genedlaethol yn cynyddu pryderon eu haelodau y byddai tenantiaid yn cael eu gadael heb driniaeth na/neu gymorth.

4.19 Roedd rhywfaint o dystiolaeth hefyd fod darparu a chynnal tai yn cael ei weld fel rhywbeth pwysicach na chymorth. Er y gall cymorth fod yn llai gweladwy a mesuradwy na chanlyniadau tai, mae'r model ailgartrefi cyflym (yn gywir) yn pwysleisio darparu cymorth ac (ail)adeiladu cysylltiadau o fewn cymuned i helpu cynnal canlyniadau cadarnhaol mwy hirdymor. Roedd y tîm ymchwil yn synhwyro risg fod y pwyslais ar 'ailgartrefu' yn arwain at danbrisio cymorth, sy'n allweddol i 'atal ailadrodd' i lawer, yn enwedig pobl sydd wedi byw bywydau ansefydlog a phrofi amddifadedd lluosog. Mewn prosiect a sefydlwyd i gynnig cymorth 'dwy haen' o ran tai ac elfennau cymunedol ehangach, nid oedd gan weithwyr cymorth yn y naill haen na'r llall lwybr atgyfeirio di-dor. Roedd diffyg eglurder hefyd ynghylch y rhan roedd staff cymorth cymunedol yn ei chwarae mewn atal digartrefedd.

4.20 Bydd cam nesaf y gwerthusiad yn archwilio'r graddau y mae prosiectau a ariennir yn ymddangos mewn Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym neu'n gydnaws â hwy, wrth i staff awdurdodau lleol gael eu cyfweld a chynlluniau drafft yn cael eu hadolygu o ardaloedd perthnasol yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

**Enghreifftiau o Arferion Addawol**

4.21 Mae enghreifftiau addawol o gefnogi ailgartrefu cyflym o fewn rhai o brosiectau'r astudiaethau achos.

4.22 Mae un model yn cynnwys adnodd sy'n unswydd ar gyfer: canfod llety, darparu cymorth rhent a symud i mewn a rheoli achosion i ganolbwyntio ar greu cysylltiadau gyda'r gymuned a/neu gysylltu â swyddi a gwasanaethau.

4.23 Dywedodd prosiect arall sy'n darparu fflatiau i'w rhannu i bobl ifanc fod y cytundeb cychwynnol yn cael ei sefydlu fel trwydded sy'n golygu nad oes gan ddefnyddwyr y gwasanaeth hawliau tenantiaeth lawn o'r cychwyn. Fodd bynnag, roedd y model hwn yn cynnig dau fudd: gellir troi trwyddedau yn denantiaethau diogel os yw'r person ifanc yn setlo a chan fod y llety yn cael ei ddosbarthu fel un ansefydlog, mae pobl ifanc yn derbyn band uwch o fewn polisïau dyraniadau tai cymdeithasol a gallant archwilio dewisiadau eraill o ran tai os ydynt yn dymuno symud.

4.24 Esboniodd un darparwr sut, yn wyneb y prinder llym o drigfannau 1-ystafell wely yn eu hardal, eu bod wedi profi model lle caiff dau unigolyn eu cefnogi i gael a rhannu eiddo dwy ystafell wely. Teimlent fod hyn yn gweithio'n dda fel cam yn y broses o helpu pobl at annibyniaeth.

4.25 Mae canolfan asesu iechyd a thai i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a chaethiwed yn gweithio gyda phobl mewn llety dros dro ond mae ei fryd ar ehangu hyn i gynnwys pobl sydd mewn tai â chymorth, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o droi allan a'r risg o fod yn ddigartref ar y stryd yn y dyfodol (gyda nod hirdymor o helpu defnyddwyr gwasanaethau i ddod yn fwy sefydlog a chael mynediad at lety parhaol).

**Ffactorau systemau ehangach**

4.26 Y canfyddiad cyffredinol sy'n dod i'r amlwg yw bod diffyg gweithio cydgysylltiedig ar draws gwahanol wasanaethau tai a digartrefedd, gan ei gwneud yn anodd gweithredu ailgartrefu cyflym ar lefel system. Fodd bynnag, canfu'r tîm ymchwil rai datblygiadau cadarnhaol o fewn system lleol, a nodir isod.

4.27 Roedd un awdurdod lleol yn esbonio bod cyllid Cam 2 wedi darparu'r refeniw a chanllawiau cysylltiedig Llywodraeth Cymru i gynhyrchu'r templed cymeradwy roedd ei angen arnynt i ennyn cydweithrediad eraill er mwyn treialu 'canolfan brysbennu'. Roedd hyn wedi dangos bod asesu amlddisgyblaethol mewn lleoliad llety tymor byr yn gam cyntaf allweddol wrth weithio i ailgartrefu pobl sydd ag anghenion lluosog a

chymhleth. Heb hyn, roedd swyddogion yn pwysleisio risg o ‘fethiant ailgartrefu cyflym’ – mae hyn hefyd yn dangos ‘atal ailadrodd’ ar waith. Roedd rhai pobl wedi aros yn y ganolfan am un noson ac wedyn wedi symud ymlaen yn gyflym; roedd eraill wedi aros am dri i chwe mi er mwyn cael diagnoses ac asesiadau gofal cymdeithasol. Roedd rhai pobl wedi symud yn uniongyrchol o’r ganolfan brysbennu i ofal preswyl. Roedd yr awdurdod lleol hefyd wedi cydnabod rôl allweddol gwasanaethau allgymorth yn gweithio law yn llaw â’r ganolfan i annog rhai a oedd yn cysgu allan yn hirdymor a’r rheini a oedd ag ymddiriedaeth isel iawn o systemau i fanteisio arno.

4.28 Mae un awdurdod lleol wedi sefydlu Bwrdd Ailgartrefu Cyflym. Teimlad y cyfranogwyr oedd bod y bwrdd wedi bod yn fecanwaith da i gael pawb, gan gynnwys y cymdeithasau tai, o amgylch y bwrdd er mwyn datblygu rhywfaint o berchnogaeth y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym. Fodd bynnag, nid oes gan bob awdurdod lleol yng Nghymru fwrdd o’r fath.

# 5. Canfyddiadau Interim: Gweithio mewn partneriaeth

### Trosolwg a chyd-destun y prosiect

5.1 Mae sawl agwedd i gymorth tai ac, i'r rheini sydd ag anghenion cymhleth yn enwedig, roedd prosiectau yn dangos pwysigrwydd cydweithio â gwasanaethau y tu hwnt i dai, gweithio gyda sefydliadau cymunedol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, gofal cymdeithasol a'r tu hwnt. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn gwneud y pwynt fod gweithio cydgysylltiedig yn hanfodol ar gyfer dull sy'n fwy ystyriol o drawma, fel y gall pobl gael at y cymorth mae arnynt ei angen heb yr angen iddynt ail-ddweud eu stori, a lleihau'r risg o bobl yn cael eu hallgàu o wasanaethau neu eu troi allan o'u llety.

5.2 Caiff pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ei bwysleisio drwy holl ddogfennau polisi Llywodraeth Cymru, er enghraifft, dywed Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2022, t.6):

'... mae gan bob gwasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector ran i'w chwarae, gan gydweithio i atal digartrefedd a, lle na ellir ei atal, sicrhau ei fod yn rhywbeth prin, byrhoedlog ac na fydd yn cael ei ailadrodd. Felly, rhaid i ddulliau gweithio mewn partneriaeth fod wrth wraidd popeth a wnawn.'

### Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o alluogwyr a rhwystrau

5.3 Roedd llawer o brosiectau yn adrodd bod mynediad cyfyngedig at wasanaethau iechyd meddwl statudol a chynnydd mewn galw am bob gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cyfyngu ar effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth.

5.4 Roedd staff cymorth yn disgrifio treulio llawer o amser yn mynd ar ôl pobl ac eirioli ar eu rhan wrth geisio diagnosis, triniaeth a chymorth. Roedd un gwasanaeth yn esbonio bod y bobl ifanc mae'n eu cefnogi yn aml yn cael eu rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl heb hyd yn oed sylweddoli hyn, gan gynnwys weithiau am beidio â chadw at apwyntiad pan nad oeddent yn gwybod amdano. Mae gweithredu dull ystyriol o drawma yn anodd pan na fo systemau a gwasanaethau ehangach yn gweithredu fel hyn.

5.5 Mae un o brosiectau'r ganolfan wedi gallu sefydlu pwynt mynediad sengl at wasanaethau camddefnyddio sylweddau er mwyn gwella mynediad a chydgysylltu i'r rheini sy'n profi amddifadedd lluosog.

5.6 Roedd rhai prosiectau llety yn adrodd am berthynas gadarnhaol gyda'u hawdurdodau lleol a oedd yn helpu llwybrau llyfr ar y "pen blaen" (sef, trwy ddewisiadau tai), ond bod tueddiad i hyn deimlo'n llai cysylltiedig wrth symud ymlaen, a drafodwyd yn adran flaenorol yr adroddiad hwn.

**Enghreifftiau o arferion addawol**

5.7 Mae rhywfaint o dystiolaeth o prosiectau a ariennir yn codi ymwybyddiaeth a dylanwadu ar ddiwylliant mewn asiantaethau partner ac ar draws systemau, o safbwynt egwyddorion Tai yn Gyntaf (ac nid oedd hyn wedi'i gyfyngu i'r rheini sy'n gweithredu Tai yn Gyntaf).

5.8 I rai prosiectau, roedd fforymau a rhwydweithiau amlasiantaethol yn gyfrwng pwysig ar gyfer hyn. Dywedodd un hysbysydd allweddol sut mae eu rhwydwaith tai amlasiantaethol lleol yn tueddu i gael ei yrru gan argyfwng, ond bod eu gweithgarwch rheolaidd yn y prosiect Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc wedi helpu gweithwyr proffesiynol i weld a chael gwell trosolwg o daith gyfan person, 'y tu hwnt i'r pwynt argyfwng'. Gall hyn helpu hefyd i gael ymrwymiad mwy hirdymor i ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ystyriol o drawma.

5.9 Roedd prosiectau eraill yn datblygu dull amlddisgyblaethol fel rhan o'u model gweithredu, yn enwedig Tai yn Gyntaf a hefyd canolfannau allgymorth. Yn yr achosion hyn, roedd cyfarfodydd yn digwydd ar draws sectorau er mwyn cofleidio anghenion defnyddiwr y gwasanaethau, er, fel yr amlygwyd yn yr adran flaenorol, roedd llais defnyddiwr y gwasanaeth ei hun yn y broses hon ar goll weithiau.

5.10 Mae un prosiect yn benodol yn ceisio gwrthdroi hyn a dylanwadu ar arferion mewn sefydliadau partner i weithio gyda phobl ifanc mewn ffordd sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn, sy'n gydgynhyrchiol a thryloyw. Mae'r prosiect yn helpu pobl ifanc i wahodd gweithwyr proffesiynol a chefnogwyr anffurfiol i gyfarfod 'Tîm ynghylch y Denantiaeth', er mwyn gwella cydgysylltu a lleihau dyblygu rhwng gwahanol

weithwyr sy’n ymwneud ag achos ac, yn bwysicaf oll, yn rhoi’r person ifanc wrth wraidd y cynlluniau.

5.11 Roedd staff mewn canolfan allgymorth a oedd yn gweithio gyda phobl â phroblemau iechyd meddwl cymhleth a chamddefnyddio sylweddau i helpu eu hadferiad yn cydnabod y gwahaniaethau mewn diwylliant sefydliadol a phroffesiynol o fewn eu tîm amlasiantaethol. Cafodd y ganolfan ei hariannu’n wreiddiol trwy gyllid Cam 2 ac mae wedi datblygu’n gynllun amlasiantaethol cynhwysfawr gydag ymrwymiad ar draws gwasanaethau iechyd, tai a chamddefnyddio sylweddau. Mae’r ganolfan yn dal i ehangu gweithgarwch traws-sectorol (mae ychwanegiadau diweddar yn cynnwys camdrin domestig a nyrs iechyd corfforol) ac mae wedi sicrhau ymrwymiad ariannol trwy gyllid anghenion cymhleth i Fyrddau Cynllunio Ardal trwy Lywodraeth Cymru a thrwy’r Grant Cymorth Tai. Yn ogystal â chreu cysylltiadau ar draws gwasanaethau iechyd, mae panel profiad bywyd sy’n chwarae rhan mewn dylanwadu ar y ganolfan ac ar lefel strategol ehangach. Maent wedi mynd ati ‘gam wrth gam’ i ddatblygu ymrwymiad traws-sectorol, gydag uchelgais fwy hirdymor i wella gweithio mewn partneriaeth i’r rheini sy’n profi defnydd problemus o sylweddau a salwch meddwl yn yr ardal leol. Er ei bod yn ddyddiau cymharol gynnar arno, gall y model hwn gynnig esiampl ddefnydiol i ardaloedd sy’n dymuno datblygu dull partneriaeth o ymdrin â thai ac iechyd.

**Ffactorau systemau ehangach**

5.12 Roedd llawer o brosiectau yn adrodd teimlo – neu roedd yn ymddangos i’r tîm ymchwil – eu bod mewn ‘seilos’, yn brin o ymrwymiad strategol ar draws pob pwynt cyswllt llwybrau defnyddwyr eu gwasanaethau. Wrth gyd-drafod â rhanddeiliaid a phartneriaid strategol ehangach yn y cam nesaf hwn o’r gwaith maes, bydd yn bwysig deall eu canfyddiadau o systemau lleol, ac i ba raddau a sut maent yn gweld prosiectau a ariennir yn cydweddu o fewn y rhain.

5.13 Roedd yr awdurdod lleol a gyfwelwyd hyd yma ar gyfer Cam 2 yn disgrifio strwythurau llywodraethu amlasiantaethol effeithiol, sy’n cynnwys grŵp llywio strategol, yn goruchwylio Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai a Fforwm Digartrefedd gweithredol sy’n eistedd oddi tano. Mae’r ddau yn cynnwys tua 30 o gynrychiolwyr, yn tynnu i mewn yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gymuned a’r sector gwirfoddol yn

ogystal â pherchnogaeth ac ymrwymiad yn y strwythur llywodraethu cyfan gan adrannau o'r cyngor yn ehangach. Bwriad y strwythurau oedd helpu penderfynu blaenoriaethau lleol a sicrhau perchnogaeth eang o'r rhain.

5.14 Roedd staff yn y ganolfan allgymorth a oedd yn gobeithio dylanwadu ar wasanaethau ehangach i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yr un pryd yn esbonio eu bod yn defnyddio'r Bwrdd Cynllunio Ardal fel cyfrwng i gychwyn herio'r ffordd y caiff gwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol eu comisiynu ar hyn o bryd.

## 6. Canfyddiadau Interim: Defnyddio tystiolaeth: Cydgynhyrchu ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau

6.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cleientiaid yn chwarae rhan fwy ystyrlon wrth gynllunio a gweithredu prosiectau. Er enghraifft, dywed Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2022, t.6):

> 'Dylai polisïau, ymarfer a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu gael eu llywio a'u llunio mewn drwy gyd-gynhyrchu rhwng y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol.'

6.2 Gan fod ymgynghori a chynnwys yn cael sylw mwy penodol yn ffurflenni cais y prosiect, yn hytrach na chydgynhyrchu ei hun, caiff yr holl weithgareddau hyn eu hystyried yn yr adran hon.

### Trosolwg a chyd-destun

6.3 Ar hyn o bryd, mae'r dystiolaeth yn gymysg o ran sut mae prosiectau wedi ymgorffori elfennau o ymgynghori a chydgynhyrchu. Mae rhai wedi mabwysiadu elfennau o gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gan amrywio o drefnu cyfarfodydd tai i drigolion i adnabod gwelliannau, i wahodd pobl i awgrymu cwestiynau a bod ar baneli cyfweld wrth recriwtio gweithiwr ieuenctid a datblygu cymunedol.

6.4 Bydd y tîm ymchwil yn parhau i archwilio'r hyn a ddysgwyd ynghylch cydgynhyrchu a'i ddefnyddio ar gyfer yr adroddiad terfynol tuag at ddiwedd 2023. Fodd bynnag, mae hysbyswyr o'r rhan fwyaf o ardaloedd yr astudiaethau achos wedi cymryd rhan, felly bydd i'r adroddiad terfynol y nod o adeiladu ar y canfyddiadau yn yr adran hon.

### Trafodaeth gysyniadol

6.5 Canfu'r tîm ymchwil fod rhai prosiectau yn cyfuno cydgynhyrchu â chynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn fwy cyffredinol wrth ddarparu gwasanaethau. Ar y llaw arall – roedd prosiect y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc wedi mabwysiadu elfennau o gydgynhyrchu ond nid oeddent yn cydnabod hyn fel y cyfryw – gan adrodd nad oeddent yn ymgorffori cydgynhrychu ond eto'n mynd ymlaen i drafod sut oedd defnyddwyr gwasanaethau yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch sut y dylai cynllun cronfa caledi flaenoriaethu gwariant.

6.6 Er bod pawb a gyfwelwyd yn cydnabod yr angen i ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaethau – roedd ychydig achosion lle nad oedd staff yn adnabod pa ran y byddai cydgynhyrchu yn ei chwarae mewn gwella'r ffordd y darperid gwasanaethau. Roedd prosiect arall sy'n ymwneud â chanolfan amlasiantaethol yn dweud bod cyfraniad defnyddwyr gwasanaethau a oedd wedi camddefnyddio sylweddau yn hanfodol i'w datblygiad fel gwasanaeth newydd. Mae hyn wedi cynnwys mynd i gyfarfodydd amlasiantaethol a chynllunio teithiau gweladwy i ddefnyddwyr gwasanaethau er mwyn codi ymwybyddiaeth. Mae hyn wedi arwain datblygiad y prosiect ac mae'n cychwyn dylanwadu ar wasanaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau yn ehangach ar draws yr awdurdod lleol.

6.7 Yn gyffredinol, roedd teimlad fod staff gweithredol yn arbennig yn llai ymwybodol o beth yw cydgynhyrchu a'i fod yn un o egwyddorion sylfaenol polisi Llywodraeth Cymru. Er bod rhai staff strategol yn ymwneud yn fwy â chydgynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau – cyfyngedig oedd y dystiolaeth hyd yma o'r flaenoriaeth hon yn treiddio i lawr i'r rheini ar y rheng flaen.

**Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o arferion addawol, galluogwyr a rhwystrau**

6.8 Yn hytrach na'u bod o angenrheidrwydd yn defnyddio dulliau cydgynhyrchu i ddylanwadu ar y prosiect fel cyfanrwydd, roedd ychydig o brosiectau yn trafod cynnwys defnyddwyr gwasanaethau i ddylanwadu ar eu gwasanaeth unigol. Er enghraifft, fe wnaeth un prosiect fabwysiadu adolygiad dau-ran o gynlluniau cymorth a'r pellter a deithiwyd, lle mae'r person ifanc a'r gweithiwr yn cwblhau'r adroddiadau cynnydd yn annibynnol a'u safbwyntiau yn cael ystyriaeth gyfartal.

6.9 Mae sicrhau bod y dull o ddarparu gwasanaethau yn cael ei ffurfio mewn modd cydgynhyrchiol yn flaenoriaeth a nodir ar lefel Llywodraeth Cymru. Fel y pwysleisir mewn lleoedd eraill, mae'r ymchwil hwn wedi adnabod enghreifftiau o ddefnyddwyr gwasanaethau yn dylanwadu ar gynllunio a gweithredu ar draws ychydig o brosiectau, er nad oedd hyn yn wir bob amser. Yn ôl un prosiect, er eu bod wedi gofyn i bobl ifanc chwarae mwy o ran a rhoi eu barn (gan gynnwys mynd i gyfarfodydd amlasiantaethol) nid oedd y mwyafrif yn dymuno gwneud hynny. Pan ofynnwyd pam, dywedodd staff yr achosion fod defnyddwyr gwasanaethau yn brysur, neu bod eu bywydau yn gymhleth. Eto, nid oedd yn ymddangos bod y

prosiect wedi holi defnyddwyr gwasanaethau a oedd ffyrdd yr hoffent gael eu cynnwys heblaw'r dewisiadau a gyflwynwyd iddynt (ee efallai fod rhai nad oeddent yn teimlo'n gysurus yn eistedd mewn cyfarfod gyda gweithwyr proffesiynol eraill). Mae canfyddiadau'r gwerthusiad hyd yma yn awgrymu y dylai prosiectau weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau i archwilio'r ffyrdd y byddent yn teimlo'n gysurus ac yn gallu cyfrannu tuag at ffurfio a dylanwadu ar y gwasanaeth a dderbyniant – gan ei gwneud yn glir nad oes angen iddynt gymryd rhan onibai eu bod yn dymuno gwneud hynny.

**Ffactorau systemau ehangach**

6.10 Roedd prosiectau yn fwy tebygol o adrodd ar weithgareddau cydgynhyrchu ar lefel sefydliad – a oedd hefyd yn ymgorffori defnyddwyr gwasanaethau prosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys prosiect a oedd yn cynnal fforwm wythnosol i ddefnyddwyr gwasanaethau a oedd yn bwydo i mewn, ac yn dylanwadu ar wasanaethau a pholisïau ehangach presennol ar lefel awdurdod lleol, rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Mae gan brosiect arall grŵp cydgynhyrchu yn cynnwys defnyddwyr presennol a chyn-ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n dylanwadu ar eu gwasanaethau cyffredinol.

6.11 Amlygodd y cyfweliadau cenedlaethol â hysbyswyr allweddol rai ffyrdd addawol y gall prosiectau gysylltu trwyddynt, megis rhaglen Arbenigwyr trwy Brofiad Cymorth Cymru a gweithgareddau i fwydo barn rhai â phrofiad uniongyrchol ar gyfer datblygu'r strategaeth genedlaethol neu Grwpiau Cynghori ar Ddigartrefedd. Mae gan Shelter Cymru Banel Cymryd Sylw ac maent wedi cyhoeddi cyfres o adnoddau ynghylch sut y gall sefydliadau gynyddu graddau cyfraniad defnyddwyr gwasanaethau (tudalen we, heb ddyddiad, Shelter Cymru). Mae'r rhai yn cynnig cyfleoedd dysgu gwych i brosiectau ac awdurdodau lleol. Cafodd ychydig aelodau o staff eu hadnabod fel rhai a oedd ag ymwybyddiaeth ac a oedd yn gwerthfawrogi ffynonellau allanol rhanbarthol a chenedlaethol o gymorth ar gyfer cydgynhyrchu, boed hynny trwy hyfforddiant neu fforymau traws-sector, neu ddysgu oddi wrth grwpiau ehangach o ddefnyddwyr gwasanaethau. Ond ar sail y gwerthusiad hwn hyd yma, mae'r adnoddau hyn yn llai tebygol o dreiddio i lawr i'r rheini sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth. Mae'n werth nodi hefyd fod

yn dal i fod rhywfaint o waith i'w wneud ar lefel genedlaethol ynghylch helpu awdurdodau lleol i gydgynhyrchu – gyda Shelter Cymru yn amlygu diffyg 'fframwaith moesegol' cenedlaethol sy'n ystyried materion yn ymwneud â GDPR, rhannu data ac asesiadau risg, er enghraifft.

6.12 Roedd hysbyswyr cenedaethol yn pwysleisio nad oedd cydgynhyrchu wedi ymwreiddio ar lefel Llywodraeth Cymru – gan grybwyll fel enghraifft y teimlad nad oedd gweithredu cynllunio Pontio at Ailgartrefu Cyflym wedi cael ei gydgynhyrchu'n ddigonol gydag awdurdodau lleol. Mae ymchwil hysbyswyr allweddol hyd yma wedi canfod y byddai rhai awdurdodau lleol yn croesawu'r cyfle i rannu'r hyn a ddysgir gyda'i gilydd a gyda Llywodraeth Cymru i helpu gosod sail ar gyfer cynllunio.

## 7. Canfyddiadau Interim: Dull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn / ystyriol o drawma

7.1 Mae Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (Llywodraeth Cymru 2020, t.5) yn datgan, fel un o’i egwyddorion allweddol:

> ‘Dylai pob gwasanaeth sicrhau bod yr unigolyn wrth wraidd yr hyn a wna, a chydweithio mewn ffordd a gaiff ei llywio gan drawma.’

7.2 Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo cyllid penodol i Cymorth Cymru gefnogi staff awdurdodau lleol i ddysgu egwyddorion ystyriol o drawma, trwy gyllido hyfforddiant wedi ei dargedu trwy’r Grant Atal Digartrefedd (digwyddodd yr hyfforddiant hwn yn ystod 2017-18 a 2019-20) (Cymorth Cymru, heb ddyddiad).

7.3 Mae’r diffiniad canlynol wedi cael ei gynnig ar gyfer beth yw ystyr gweithio mewn ffordd ‘ystyriol o drawma’:

> ‘Yn y dull hwn, caiff gwybodaeth am drawma a’i effeithiau ei hintegreiddio i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion. Mae’n ceisio gwrthsefyll trawmateiddio pobl eto ac atal a lliniaru canlyniadau andwyol, gan flaenoriaethu diogelwch corfforol ac emosiynol ac mae’n ymrwymo i ‘beidio â gwneud unrhyw niwed’ yn ymarferol ac i gefnogi’n rhagweithiol a helpu pobl yr effeithir arnynt i wneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain.’
>
> (Hyb ACE Cymru/ Straen Trawmatig Cymru, 2022, t.10). Mae Partneriaeth Cydwasanaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru (heb ddyddiad) yn cynnig y diffiniad canlynol:
>
> ‘Mae gofal sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cyfeirio at broses lle mae pobl, a’r angen i hyrwyddo eu hannibyniaeth a’u gallu i wneud dewisiadau a chael y rheolaeth briodol, yn ganolog ac yn seiliedig ar athroniaeth o gydweithredu fel tîm. Mae’n ystyried anghenion a barn pobl, gan ddatblygu cysylltiadau ag aelodau’r teulu.’

7.4 Mae Partneriaeth Cydwasanaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru (heb ddyddiad) yn pwysleisio’r berthynas rhwng gofal sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn a chydgynhyrchu, a all gefnogi dull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn gan ei fod yn gweld pobl fel ‘partneriaid cyfartal’ mewn cynllunio a datblygu. Tra bod yr adran

flaenorol yn ymdrin â chynnwys defnyddwyr gwasanaethau a chydgynhyrchu, mae'r adran hon yn canolbwyntio'n fwy penodol ar arferion gydag unigolion.

**Trosolwg a Chyd-destun**

7.5 Mae llawer o brosiectau wedi mabwysiadu elfennau o gynnig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gydag enghreifftiau'n cael eu rhoi o ddull eirioli. Ar lefel fwy sylfaenol gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaethau pa weithgareddau yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnwys mewn prosiect. Roedd gwasanaethau a oedd wedi ymwreiddio'n ddyfnach yn mynd ati'n fwriadol i weithio tuag at fodel cymorth lle caiff grym ei rannu rhwng dinesydd a gweithiwr, gyda'r dinesydd yn dewis gan bwy i droi am help, a sut, lle a phryd i wneud hynny. Yn gyffredinol, nid yw'r dull yn cael ei weithredu'n gyson ar draws staff nac ar draws gwahanol elfennau prosiect, nac ar draws llwybrau ehangach y mae'r prosiectau hyn yn rhan ohonynt. Hyd yma, mae rhai staff gweithredol ar draws ychydig o'r prosiectau yn dweud eu bod yn ansicr ynghylch beth oedd ystyr dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu'n ystyriol o drawma (efallai nad oedd hyn yn syndod fod hyn yn llai amlwg mewn prosiectau sydd wedi mabwysiadu Tai yn Gyntaf, gan fod y dull hwn wedi ymwreiddio yn y fframwaith).

7.6 Ar gyfer cam nesaf y gwerthuso, bydd y tîm ymchwil yn parhau i gasglu barn pobl sy'n defnyddio prosiectau a ariennir ac adnabod y graddau mae'r rhain wedi cael eu canfod fel rhai sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd cyfuno ar draws pob cyfweliad hefyd yn cael ei gyflawni – wedi ei groesgyfeirio yn ôl prosiect, er mwyn tynnu sylw at enghreifftiau penodol o arferion da a meysydd i'w datblygu – a fydd yn cael ei arwain gan waith maes sydd ar y gweill.

**Trafodaeth gysyniadol**

7.7 Gofynnwyd i brosiectau wrth iddynt baratoi cais ddangos sut maent yn gweithredu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn / sy'n ystyriol o drawma. Er bod yr egwyddorion yn cael eu gweithredu mewn rhai achosion, canfu'r tîm ymchwil rywfaint o amwysedd ymysg prosiectau ynghylch beth yw gwasanaeth sy'n gwirioneddol ganolbwyntio ar yr unigolyn, gydag ychydig o staff rheng flaen yn dweud nad oeddent yn gyfarwydd â'r termau. Lle'r oedd staff gweithredol wedi clywed y termau hyn, nid oeddent o angenrheidrwydd yn eu gweithredu'n gywir. Er

enghraifft, roedd aelod staff mewn un prosiect yn awgrymu y byddai defnyddwyr gwasanaethau “yn cael eu cyfeirio at wasanaethau eraill” i reoli unrhyw drawma.

**Enghreifftiau o arferion addawol**

7.8 Roedd un prosiect yn disgrifio mabwysiadu ‘dull adferol’ ac wedi cymryd camau a oedd wedi arwain at ymateb cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae’r gweithwyr cydgysylltu sydd yn eu swyddi yn dod o gefndir o brofiad uniongyrchol. Mae’r prosiect hwn yn cydnabod y gall weithiau fod gwrthsafiad gan bobl ifanc (yn enwedig rhai o gefndir gofal) yn erbyn cysylltu â gweithwyr proffesiynol gan eu bod wedi arfer ‘cael pethau wedi eu gwneud iddynt’. Mae’r prosiect yn cydweithio’n agos i oresgyn y rhwystrau hyn trwy sicrhau bod y person ifanc, yn ogystal â mynd i gyfarfodydd amlasiantaethol amdanynt, yn galw cyfarfodydd o’r fath, gan eu galluogi i wahodd gweithwyr proffesiynol neu aelodau o’r teulu y maent yn dymuno iddynt fod yno. Mae’r person ifanc hefyd yn cael copïau o negeseuon rhwng gwahanol weithwyr proffesiynol a’i gilydd (gan gynnwys copïo’r person ifanc yn ôl pan fo gweithwyr proffesiynol heb eu cynnwys mewn neges ateb). Mae cyfleoedd i ddysgu rhwng prosiectau a’i gilydd yma, fel yr amlygwyd yn yr adran gydgynhyrchu – gan fod prosiectau eraill wedi ei chael yn anodd cynnwys defnyddwyr gwasanaethau.

7.9 Er bod cyfweliadau cyfyngedig wedi bod gyda defnyddwyr gwasanaethau hyd yma – lle mae’r wybodaeth ohonynt wedi ei chasglu, mae adroddiadau o ganlyniadau cadarnhaol yn ymwneud â chymorth cyfannol, gan arwain at gynnydd mewn hyder, llesiant a chefnogaeth ynghylch addysg a hyfforddiant, cyllidebu a sgiliau bywyd. Soniodd un person o deimlo gofal amdanynt a bod staff wedi mynd allan o’u ffordd i ddod i’w hadnabod a deall eu hanghenion, gydag un yn eu helpu i gael bwrsariaethau gan Ymddirieolaeth Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ac ymgeisio i fynd i’r brifysgol i astudio theatr gerddorol.

**Tystiolaeth sy’n dod i’r amlwg o alluogwyr a rhwystrau**

7.10 Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau yn cynnig hyfforddiant ystyriol o drawma i staff, ond nid oedd hyn bob amser yn digwydd i’r holl staff, yn enwedig rhai mwy newydd,

gydag un a gyfwelwyd yn adrodd nad oedd ganddynt yr adnoddau i gynnig hyfforddiant diweddaru.

7.11 Weithiau gall model y prosiect lesteirio canolbwyntio ar yr unigolyn neu fod yn ystyriol o drawma. Er enghraifft, roedd angen i brosiect tai a rennir feddwl yn ofalus ynghylch sut y byddai unigolyn yn gweddu â'r gwasanaeth. Roedd proses ddewis fforddiadwyedd ac addasrwydd ac iddi agwedd fwy cyndyn at risg yn digwydd er mwyn sgrinio a rheoli risgiau anghenion, eto roedd hyn yn cael ei gyfiawnhau fel rhywbeth angenrheidiol er mwyn hyrwyddo llesiant a diogelwch y preswylydd arall yn y lleoliad a rennid.

7.12 Mewn rhai achosion, roedd dull a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei gynnig o fewn paramedrau cymorth y prosiect – ond nid ar draws y system fel cyfanrwydd. Er enghraifft, clywsom fod mewn rhai sefydliadau a systemau, ddiwylliant o atgyfeirio pobl heb geisio eu cydsyniad na hyd yn oed esbonio diben na natur y cynnig a all weithredu fel rhwystr rhag eu cynnwys. O ran symud ymlaen, roedd gan un awdurdod lleol un cynnig polisi i ddefnyddwyr gwasanaethau a oedd yn barod i symud ymlaen o brosiect. O fewn un o'r prosiectau HR4Y, lle nad yw'r llety a ddarperir yn barhaol oherwydd meini prawf oedran, roedd diffyg dewisiadau symud ymlaen yn golygu bod defnyddwyr gwasanaeth sydd ar fin troi'n 25 oed mewn perygol yn symud 'yn ôl' i lety argyfwng. Mae hyn yn mynd yn groes i'r egwyddorion Tai yn Gyntaf ynghylch cynnig cymorth sefydlog cyn belled â bod ar rywun ei angen a'r egwyddorion ynghylch 'datblygiad cadarnhaol pobl ifanc' (Tai yn Gyntaf Ewrop 2022). Mewn prosiect arall, rhoddwyd enghreifftiau o ychydig o bobl yn symud yn ôl i mewn gyda theulu hyd nes gellir canfod llety parhaol. Er bod y rhai a gyfwelwyd yn pwysleisio bod y defnyddwyr gwasanaethau hyn wedi gwella'u sgiliau annibynnol ar gyfer y dyfodol, nid yw symud pobl 'yn ôl' ar hyd llwybr er budd defnyddiwr y gwasanaeth, ac felly nid yw'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd darparwr, sef cymdeithas dai, a oedd yn cydweithio'n agos â phrosiect HF4Y yn cyfeirio at ddarparwyr eraill yn osgoi cwsmeriaid a gafodd eu hasesu fel rhai ag anghenion lefel uchel. Mae hyn eto'n amlygu'r angen am dull system gyfan o weithio mewn ffordd ystyriol o drawma.

7.13 Er y byddai disgwyl i brosiectau Tai yn Gyntaf a aseswyd fel rhai o safon uchel weithredu dull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn / ystyriol o drawma, roedd prosiectau yn dweud wrthynt fod eu gallu i weithio fel hyn gan ddefnyddio model rheoli achosion dwys yn cael ei gyfyngu weithiau gan y systemau ehangach a oedd yn cael eu gor-ymestyn a/neu a oedd yn anhyblyg y maent yn helpu pobl i gael atynt.

## 8. Canfyddiadau Interim: Defnyddio tystiolaeth: Mesur perfformiad ac effaith

8.1 Mae'n ofynnol i brosiectau a gaiff eu hariannu trwy raglan bresennol Tai yn Gyntaf a'r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc gwblhau adroddiad monitro bob chwe mis lle caiff y dangosyddion perfformiad allweddol cyfredol eu cofnodi. Mae prosiectau hefyd yn cwblhau cynllun gweithredu blynyddol, i ddiweddaru ar unrhyw newidiadau i'r prosiect a chadarnhau'r cyllid sydd ei angen.

8.2 Ers i'r tair rhaglen gyllido a gynhwysir o fewn y gwerthusiad hwn gael eu sefydlu, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn datblygu Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, gan gynnwys Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer y Grant Cymorth Tai, trwy gyd-drafod â'r sector. Ym mhrif Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, caiff canlyniadau drafft eu strwythuro o dan y penawdau:

- Cydraddoldeb, partneriaeth a gweithlu
- Prin, byrhoedlog a ddim yn digwydd eto

8.3 Fe wnaeth chwe awdurdod lleol gyfrannu at beilot y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer y Grant Cymorth Tai – lle mae'r adborth a dderbyniwyd wedi gosod sail ar gyfer fersiwn derfynol y fframwaith (Llywodraeth Cymru 2023b).

8.4 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ynghylch sut caiff prosiectau eu mesur a sut maent yn adrodd ar eu cynnydd. Nid yw'r tair rhaglen a phrosiectau'r astudiaethau achos sy'n cymryd rhan yn y gwerthusiad hyd yma, hyd y gwyddom ni, wedi integreiddio'r canlyniadau newydd yn ffurfiol i'w systemau. Yng ngweddill y gwerthusiad, bydd y tîm ymchwil yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno i ba raddau a sut y gallai'n canfyddiadau a'n hargymhellion adlewyrchu'r Fframwaith Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg.

### Trosolwg a chyd-destun

8.5 Gall sicrhau bod gan brosiectau brosesau mesur trwyadl ar waith helpu rhoi gwybod beth sy'n gweithio'n dda mewn cyd-destunau penodol ac ar draws gwahanol rannau o'r system, gan ein galluogi i ystyried lle mae bylchau a chyfleoedd. Canfu'r tîm ymchwil nad oes prosesau mesur cadarn ar waith yn gyffredinol ar draws prosiectau

a ariennir, gyda mwy o ganolbwyntio ar allbynnau nag ar ganlyniadau ac ar ddysgu. Lle'r oedd prosiectau wedi darparu tystiolaeth, roedd hyn yn tueddu i adlewyrchu eu cynnig ehangach o wasanaethau yn hytrach na chanolbwyntio ar y prosiectau.

8.6 O ran prosiectau cam 2, yn sgil natur y cyllido cyflym a'r ffaith fod y rhain bellach wedi cael eu prif ffrydio neu nad ydynt yn gweithredu mwyach, nid yw dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu casglu bellach. Roedd hyn yn golygu bod safon ac ansawdd y data a ddelir yn gymysg a lle bo gwasanaethau yn dal i redeg – gan ddibynnu ar ofynion y ffrydiau cyllid penodol.

8.7 Mae'r tîm ymchwil yn cyflawni gwaith parhaus i adnabod y data a gesglir ac a ddelir yn fewnol ar draws prosiectau – bydd hyn yn cael ei gyfuno a'i drafod mewn mwy o fanylder ar gyfer yr adroddiad terfynol.

**Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o enghreifftiau addawol, galluogwyr a rhwystrau**

8.8 Mae ychydig o ardaloedd yr astudiaethau achos yn casglu gwybodaeth yn fewnol i gasglu adborth, mesur cynnydd a/neu pellter a deithiwyd, megis trwy holiaduron gadael, neu ddulliau mesur Sêr Canlyniadau. Roedd rhai prosiectau yn sôn am gyfarfod yn rheolaidd gyda chleientiaid i adolygu eu nodau, gydag un yn cyfuno data asesu a chynnydd mewn un system i ganiatáu adroddiadau mwy manwl. Er bod nifer o brosiectau ar raddfa fach, gall hyn gynnig deunydd dysgu defnyddiol i Lywodraeth Cymru.

8.9 Ymysg y mwyafrif o brosiectau, roedd gwybodaeth yn cael ei gasglu'n bennaf i ddiben adrodd dangosyddion perfformiad allweddol i Lywodraeth Cymru, a oedd yn tueddu i gael ei fframio ynghylch allbynnau penodol. Dywedwyd wrthym gan brosiect a oedd yn cydnabod bod y dangosyddion perfformiad allweddol presennol yn "eithaf sylfaenol" y byddent yn croesawu'r cyfle i drafod dysgu a gwella gyda Llywodraeth Cymru, a'r cyfle i adnewyddu'r dangosyddion perfformiad allweddol, ond nid yw'r naill na'r llall wedi digwydd hyd yma.

8.10 Er bod rhai dangosyddion perfformiad allweddol yn amlygu canlyniadau 'meddalach', megis ynghylch gwelliannau i lesiant ac Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth – nid oedd bob amser yn glir sut y caiff y dystiolaeth hon ei chasglu. Yn achos un prosiect, hysbyswyd y tîm ymchwil fod dangosyddion perfformiad

allweddol wedi cael eu hasesu gan aelodau staff, yn hytrach na thrwy ofyn yn uniongyrchol i bobl ifanc.

8.11 Roedd rheolwyr rhaglenni yn cydnabod bod ffactorau Covid efallai wedi tarfu ar rywfaint o'r casglu tystiolaeth a gynlluniwyd ar draws prosiectau. Roedd rhai prosiectau wedi cynllunio ar gyfer casglu gwybodaeth ychwanegol, megis ynghylch asesu cost a budd neu weithredu mesurau hydredol trwy raddfa Llesiant Meddwl Warwick Edinburgh. Fodd bynnag – roedd y tîm ymchwil yn cydnabod nad oedd hyn yn digwydd yn gyffredinol. Roedd rhai a gyfwelwyd yn crybwyll Covid fel rheswm dros hyn yn sgil dyddiadau cychwyn yn cael eu gohirio a'r tarfu'n golygu na allai prosiectau gychwyn na gweithredu fel y bwriadwyd. Roedd Tai yn Gyntaf a modelau llety a rennir yn enwedig wedi ei chael yn anodd cyflawni'n unol â'r cynllun ar y cychwyn. Roedd hyn yn golygu bod mesurau 'cadarn' ychwanegol heb gychwyn cael eu gweithredu.

8.12 Mewn ychydig o ardaloedd, roedd staff yn ansicr ynghylch sut roedd dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu mesur. Er enghraifft, mewn un prosiect roedd unigolyn strategol a gyfwelwyd yn awgrymu bod staff rheng flaen yn casglu gwybodaeth at ei gilydd (gan eu bod wedi gweithio'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaethau), eto pan ofynnwyd iddynt, canfuwyd nad oedd hyn wedi digwydd. Mewn prosiect partneriaeth a oedd yn cael ei weithredu gan sefydliad trydydd sector ac awdurdod lleol, roedd rhai a gyfwelwyd o'r ddau bartner yn awgrymu bod y llall yn casglu'r dangosyddion perfformiad allweddol.

8.13 Roedd prosiectau a oedd yn llai ac yn gweithio gydag unigolion mwy cymhleth y gallai taith eu llwybr cartrefu gymryd yn hirach a bod yn llai llinellol yn mynegi nad oedd dangosyddion meintiol traddodiadol a dangosyddion perfformiad allweddol rhifol yn mesur rhai o'r ffactorau a nodwyd fel 'llwyddiant'. Roedd ychydig yn mynegi bod canlyniadau nad oedd yn gysylltiedig â thai weithiau yn fwy addas. Er enghraifft, roedd prosiect yn diffinio dangosydd fel galluogi pobl sydd ag amrywiaeth o broblemau iechyd meddwl a all eu helpu i adfer. O hyn mae'r cleient mewn mwy o sefyllfa i ddatblygu sgiliau bywyd a lleihau digartrefedd yn y dyfodol. Teimlai prosiect arall y byddai dull ansoddol yn cynnig ffordd fwy gwerthfawr o ddysgu iddynt ac yn casglu astudiaethau achos cleientiaid i'r diben hwn.

## 9. Crynodeb

9.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r themâu cynnar sy'n dod i'r amlwg ar sail blwyddyn gyntaf y gwerthusiad, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar Theori Newid y polisi a'r rhaglen a'r gwaith maes gyda darparwyr gwasanaethau a thai.

9.2 Er mwyn gosod sail ar gyfer yr adroddiad terfynol, mae'r tîm ymchwil yn cyflawni rhagor o waith maes astudiaethau achos gyda defnyddwyr gwasanaethau, y mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn haf 2023. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan ymarferiad dadansoddi mwy trylwyr o ddata er mwyn llunio cymariaethau cadarn a phrofi damcaniaethau am y gwahanol ddulliau ac adnoddau sydd eu hangen mewn gwahanol gyd-destunau, law yn llaw â datblygu astudiaethau achos o brosiectau unigol a dadansoddiad cost a budd. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu set o argymhellion a fydd yn gosod sail ar gyfer cynllunio dulliau ariannu i'w mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

**Cyfeiriadau**


Hyb ACE Cymru / Straen Trawmatig Cymru (2022) Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: Dull Cymdeithasol o Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd

Cymorth Cymru (gwe-dudalen, heb dyddiad) hyfforddiant PATH, cyrchwyd 29/03/23

Fitzpatrick, S., Mackie, P. & Wood, J. (2021) Advancing a Five-Stage Typology of Homelessness Prevention, International Journal on Homelessness, 2021, 1(1): tt. 79-97

Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) Atal digartrefedd, ei drechu a rhoi diwedd arno drwy ailgartrefu cyflym a phartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol: Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, Llywodraeth Cymru

Housing First Europe Hub (2022) An Introduction to Housing First for Youth

Cyfraith Cymru (2023) Digartrefedd, Llywodraeth Cymru, cyrchwyd 29/03/23

Partneriaeth Cydwasanaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru (heb ddyddiad) E-Lawlyfr Llywodraethu, Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf, Safonau Iechyd a Gofal a'r canllawiau ategol, cyrchwyd 29/03/23

Ymchwil y Senedd (2021) Digartrefedd: o argyfwng i gyfle, cyhoeddwyd 20/05/21, cyrchwyd 29/03/23

Shelter Cymru (heb dyddiad) Tudalen we Daliwch Sylw, cyrchwyd 29/03/23

Thornton, A., Sidebottom, A., Belur, J., Tompson, L. & Bowers, K. (2019) On the development and application of EMMIE: insights from the What Works Centre for Crime Reduction, Policing and Society, 29:3,266-282

Llywodraeth Cymru (2019) Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, Hydref 2019

Llywodraeth Cymru (diweddariad 2023) Canllawiau ar y Grant Cymorth Tai: Canllawiau Ymarfer i Awdurdodau Lleol o fis Ebrill 2020

Llywodraeth Cymru (2020b) Diogelu tenantiaid a landlordiaid sy'n cael eu heffeithio gan y coronafeirws yng Nghymru, Datganiad i'r wasg, 22 Mawrth 2020, cyrchwyd 29/03/23

Llywodraeth Cymru (2021) Rhoi diwedd ar Ddigartrefedd: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel, 2021-2026.

Llywodraeth Cymru (2022) Ystadegau: Digartrefedd: Ebrill 2021 – Mawrth 2022

Llywodraeth Cymru (2022b) Canllawiau: Ailgartrefu Cyflym: Sut y byddwn yn helpu'r rhai sy'n profi digartrefedd i ddod o hyd i dai sefydlog yn gynt, 24 Awst

Llywodraeth Cymru (2023) Ystadegau: Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan, Ionawr 2023

Llywodraeth Cymru (2023b) Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai: i'w weithredu o fis Ebrill 2023

## Atodiad A: Theori Newid

### Theori Newid ar lefel polisi

| **Diffinio'r broblem / dadansoddi'r sefyllfa (Beth yw'r broblem?)** | **Sail a phwyslais yr atebion (Beth yw'r ateb?)** | **Achosiaeth (Beth fydd yn achosi i'r ateb ddigwydd?)** |
|---|---|---|
| Pa mor dda y caiff y broblem ei deall? A oes sail gadarn i hyn? A yw'n dibynnu ar dybiaethau, os felly pa dybiaethau? | Beth yw'r dyhead/yr uchelgais ar gyfer yr ateb? Ar ba egwyddorion / ddaliadau mae'r atebion wedi eu sylfaenu? Beth sy'n wahanol am y polisi hwn o gymharu â'r hyn sydd wedi cael ei wneud o'r blaen? | Sut y disgrifir ac y rhagwelir y berthynas achosol rhwng y broblem a'r ateb? Beth yw sail resymegol y broses o newid? |
| **Cyffredinol:**<br>- Mae wedi ei seilio ar y gred nad tai (neu ddiffyg tai) yw unig achos digartrefedd ac na ddylid canolbwyntio ar hyn yn unig. Mae gan y polisi bwyslais cryf ar ddulliau system gyfan ac un olwg strategol gyfun ar ddigartrefedd. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar gydsyniad gan bartneriaid | 1. Cymryd camau i ddeall galw ar lefel leol a beth sy'n gweithio:<br>a) ystyried graddfa'r broblem trwy wella data digartrefedd<br>b) ceisio tystiolaeth o effaith gwasanaethau ac ymyraethau a rhannu hyn i osod sail ar gyfer dysgu ehangach *[Tybiaethau ar gyfer yr uchod: Bydd dull seiliedig ar dystiolaeth o asesu effaith* | 1. Mae diffyg data digonol yn golygu nad yw maint y broblem a'r graddau mae'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau yn effeithiol yn cael ei ddeall yn iawn ar lefel genedlaethol a lleol. Bydd casglu gwell tystiolaeth yn hwyluso gwelliant ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i roi canllawiau clir i awdurdodau lleol ynghylch 'beth sy'n gweithio' mewn ailgartrefu |

| Diffinio'r broblem / dadansoddi'r sefyllfa<br>(Beth yw'r broblem?) | Sail a phwyslais yr atebion<br>(Beth yw'r ateb?) | Achosiaeth<br>(Beth fydd yn achosi i'r ateb ddigwydd?) |
|---|---|---|
| ac asiantaethau perthnasol *[Tybio cydsyniad].*<br>- Caiff digartrefedd ei ddiffinio'n eang, hynny yw i gwmpasu digartrefedd cudd.<br>- Mae'r weledigaeth gyffredinol 'prin, byrhoedlog a ddim yn digwydd eto' yn agored i ddehongliad.<br>- Mae'n nodi symudiad i ffwrdd oddi wrth bolisi presennol sy'n gyfyngedig neu'n absennol o safbwynt: dull system gyfan; | *gwasanaethau yn helpu Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau cliriach ar effeithiolrwydd a helpu penderfyniadau comisiynu ymysg awdurdodau lleol]* | cyflym. *[Mae'n tybio na wahaniaethir rhwng y math o effaith y bydd tystiolaeth yn ei gael ar benderfyniadau polisi a chomisiynu yn y dyfodol.]* |
| arferion ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar y person; cydgynhyrchu; pwyslais ar ymyrryd ac atal o fewn ysbryd, nid llythyren y gyfraith; atebion tai cyflym ac addas a daliadaeth sicr; atebion arloesol o ran tai a chymorth.<br>- Symud pwyslais: oddi wrth reoli argyfwng, rhyddhau o ddigartrefedd, llety argyfwng dros dro, llety dros dro, i | 2. Sicrhau mai atal cynnar yw'r dewis cyntaf wrth benderfynu ar ymyrraeth *[Tybiaeth: Mae ymyrryd ac atal cynnar yn fwy cost-effeithiol, mae 'gwir atal' yn cychwyn cyn 56 diwrnod* (sef y cyfnod cyn y diffiniad statudol o deuluoedd fod o dan fygythiad digartrefedd, (yn unol ag adran 55(4) Deddf Tai (Cymru) 2014) | 2. Er mwyn cyflawni ymyrraeth ac atal cynnar, dylai awdurdodau weithredu cyn y Ddyletswydd 56-diwrnod. Dylid ystyried dyletswyddau o fewn y Ddeddf Tai fel 'yr amddiffyniad olaf' / eu trin fel 'rhwyd ddiogelwch' pan fo pob mesur ataliol arall wedi methu – gan weithio i 'ysbryd nid llythyren y gyfraith'. Bydd hefyd angen mwy o fuddsoddi mewn mwy o atal |

| Diffinio'r broblem / dadansoddi'r sefyllfa (Beth yw'r broblem?) | Sail a phwyslais yr atebion (Beth yw'r ateb?) | Achosiaeth (Beth fydd yn achosi i'r ateb ddigwydd?) |
|---|---|---|
| ymyrryd yn gynnar yn y gwraidd, ac oddi wrth fodelau grisiau / seiliedig ar wobrau at atebion tai hirdymor. | | sylfaenol, eilaidd a thrydyddol er mwyn lleihau'r llif o deuluoedd sy'n syrthio i ddigartrefedd. |
| | 3. Sicrhau bod ailgartrefu cyflym a pharhaol yn cael ei flaenoriaethu fel dull o fynd i'r afael â digartrefedd<br>*[Tybiaeth: bydd y galw'n lleihau a bydd yn helpu lleihau galw ar hostelau, llety dros dro a llety argyfwng dros amser]* | 3. Er mwyn sicrhau bod ailgartrefu cyflym a pharhaol yn cael blaenoriaeth, mae angen:<br>a) symud oddi wrth y model 'grisiau' ac ennill gwobrau o weithredu gwasanaethau<br>b) gweithredu atebion tai hirdymor<br>c) symud oddi wrth ddarparu gwasanaethau llety argyfwng, llety dros dro a hostelau<br>d) ymchwilio i fabwysiadu Tai yn Gyntaf fel rhan o ddull system gyfan, gan sicrhau bod cymorth cofleidiol yn ei le<br>e) cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai fforddiadwy (trwy ddatblygu tai cymdeithasol, dyraniadau tecach, gwell mynediad at y sector rhentu preifat) |

| Diffinio'r broblem / dadansoddi'r sefyllfa (Beth yw'r broblem?) | Sail a phwyslais yr atebion (Beth yw'r ateb?) | Achosiaeth (Beth fydd yn achosi i'r ateb ddigwydd?) |
| --- | --- | --- |
| | | *[Tybiaeth: mae hyn yn gofyn am fodelau amgen o ddarparu gwasanaethau a gydberchnogir ac a gydariennir gan wasanaethau cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Iechyd Meddwl, camddefnyddio sylweddau, gofal sylfaenol, diogelwch cymunedol a thai er mwyn sicrhau bod timau arbenigol amlddisgyblaethol yn helpu unigolion i ddiwallu eu hanghenion a gweithredu dull ystyriol o drawma]* |
| | 4. Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn | 4. Dylai pob gwasanaeth gael eu cynnig mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma, gan weithio gyda phartneriaid i gyflawni hyn |
| | 5. Cefnogi dull cydlynol gyda phartneriaid lleol – gan ganolbwyntio ar rai sy'n gadael carchar, gadael gofal, allan o'r Ysbyty a phobl ifanc | 5. Ni ellir datrys digartrefedd gyda thai yn unig, yn hytrach mae'n 'fater gwasanaethau cyhoeddus' sy'n gofyn am ddulliau gweithredu ar lefel system *[Tybiaeth: bydd pob gwasanaeth cyhoeddus perthnasol yn cydsynio â'r farn* |

| Diffinio'r broblem / dadansoddi'r sefyllfa<br>(Beth yw'r broblem?) | Sail a phwyslais yr atebion<br>(Beth yw'r ateb?) | Achosiaeth<br>(Beth fydd yn achosi i'r ateb ddigwydd?) |
|---|---|---|
| | *[Tybiaeth: mae dull cydlynol ar lefel system yn bosibl a bydd yn hwyluso rhoi diwedd ar ddigartrefedd]* | *hon / mae ymrwymiad ar bob lefel]* trwy'r canlynol:<br><br>a) cyd-drafod â gwasanaethau cyhoeddus lleol (gan gynnwys byrddau iechyd, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSL)) a'r trydydd sector.<br><br>b) Gweithredu llwybr carcharorion mewn partneriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi *[Tybiaeth: bydd y llwybr yn rhwystro digartrefedd rheolaidd i'r grŵp hwn].*<br><br>c) Buddsoddi mew natal eilaidd wedi ei dargedu a'i anelu at bobl ifanc trwy'r gwasanaeth ieuenctid ac amrywiaeth o bartneriaethau *[Tybiaeth: mae'r sefydliadau hyn yn weithgar yn yr* |

| Diffinio'r broblem / dadansoddi'r sefyllfa<br>(Beth yw'r broblem?) | Sail a phwyslais yr atebion<br>(Beth yw'r ateb?) | Achosiaeth<br>(Beth fydd yn achosi i'r ateb ddigwydd?) |
| --- | --- | --- |
| | | *awdurdod lleol / byddant yn ymgeisio am gontractau ac maent yn ymrwymo'n sylfaenol i weledigaeth y polisi].*<br><br>d) Gweithio gyda'r system gofal i sicrhau pontio llwyddiannus i lety parhaol i'r rhai sy'n gadael gofal.<br><br>e) Gweithio gyda gwasanaethau rhyddhau o ysbyty.<br><br>f) Gweithio gyda rheolwyr tai a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r sector rhentu cyhoeddus i helpu atal ac osgoi troi allan diangen.<br><br>g) Polisi, darpariaeth gwasanaethau ac arferion yn cael eu harwain a'u llunio mewn modd cydgynhyrchiol a chan y |

| Diffinio'r broblem / dadansoddi'r sefyllfa (Beth yw'r broblem?) | Sail a phwyslais yr atebion (Beth yw'r ateb?) | Achosiaeth (Beth fydd yn achosi i'r ateb ddigwydd?) |
|---|---|---|
| | | rheini sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd.<br><br>h) Timau arbenigol amlddisgyblaethol (yn cael eu sefydlu trwy fodelau amgen a gydariennir o ddarparu gwasanaethau). |

Cafodd y penawdau thematig canlynol eu tynnu allan o'r theori newid lefel polisi uchod. Gosododd y penawdau hyn sail i'r adolygiad polisi lefel uchel a wnaeth yn ei dro osod sail ar gyfer y theori newid ar lefel rhaglen y manylir arno yn yr adran nesaf. Y penawdau thematig ar lefel polisi yw:

- Tystiolaeth – data a chydgynhyrchu i ddeall galw lleol a beth sy'n gweithio (yn lleol a chenedlaethol) gan gynnwys rôl Llywodraeth Cymru fel sianel 2-ffordd
- Atal / yr ymyrraeth gynharaf
- Rhoi blaenoriaeth i ailgartrefu cyflym a pharhaol
- Canolbwyntio ar y person, ystyriol o drawma
- Dull cydgysylltiedig (yn enwedig ar gyfer pontio allweddol rhwng gwasanaethau)

**Theori Newid ar lefel rhaglen**

Mae'r theori newid ar lefel y rhaglen wedi cael ei ddatblygu a'i addasu wrth fynd ymlaen ac mae'n rhoi fframwaith gwerthuso cyffredinol i asesu pedwar math o ddarpariaeth. Mae'r categorïau yn seiliedig ar weithredu'r model/gwasanaeth o fewn y system ailgartrefu cyflym (a ragwelir), a dylai hyn sicrhau hynny ag sy'n bosibl o gyfleoedd i gymhwyso'n strategol yr hyn a ddysgwyd o'n gwerthusiad:

- Brysbennu ac asesu (gan gynnwys gan, neu ar gyfer, asiantaethau eraill yn ogystal â thai/digartrefedd);
- Cyflenwi tai/mynediad at dai sector rhentu cymdeithasol a phreifat (ee mentrau mynediad i'r Sector Rhentu Preifat, cynlluniau prydlesu, etc);
- Darparu cymorth + tai fel pecyn, (sef, mewn prosiect tai cymorth pontio) gyda'r nod o hwyluso symud ymlaen (sef cyfyngedig o ran amser);
- Cymorth i aros mewn eiddo (ee cymorth lle bo'r angen, Tai yn Gyntaf; lle nad oes disgwyl y bydd y person yn symud os nad oes arnynt angen / eisiau / yn derbyn y cymorth – mae'r denantiaeth yn un 'brif ffrwd' (heb fod yn gysylltiedig â chymorth) ond efallai nad yw'n barhaol oherwydd gall fod yn y sector rhentu preifat).

Bydd y tîm ymchwil yn sicrhau cymysgedd dda o brosiectau / modelau yn targedu pobl iau ac oedolion (hŷn) yn y gwerthusiad fel y gellir dangos yr hyn sydd gyffredin a gwahaniaethau sylweddol rhwng anghenion gwahanol grwpiau oedran o safbwynt y camau hyn o'r daith atal / ailgartrefu cyflym.

**Themâu theori'r rhaglen**

O fewn pob un o'r prosiectau / modelau hyn, archwilir y pum egwyddor neu thema allweddol o'n Theori Newid ar lefel polisi a dynnwyd allan o Bolisi Digartrefedd Llywodraeth Cymru a'u profi ar draws dogfennau polisi allweddol eraill a gyflenwyd. Y rhain yw:

- Defnyddio tystiolaeth (tystiolaeth data lleol ac ymchwil / gwerthuso) a chydgynhyrchu
- Atal / yr ymyrraeth gynharaf
- (Blaenoriaethu) ailgartrefu cyflym a pharhaol (ee gallai rhywun fod mewn hostel, ond yr hyn y canolbwyntir arno yw eu helpu i gael cymorth / rhoi cymorth iddynt i gynyddu'r tebygolrwydd o gynnal tenantiaeth)
- Canolbwyntio ar yr unigolyn / ystyriol o drawma
- Gweithio cydgysylltiedig / mewn partneriaeth.

Dylai hyn alluogi profi'r graddau y mae'r prosiectau a ariennir yn gydnaws â pholisi Llywodraeth Cymru.

Bydd astudiaethau achos y gwerthusiad hefyd yn defnyddio'r fframwaith EMMIE i hwyluso dealltwriaeth ar sut mae'r cyd-destun lleol, y mecanweithiau, y cymedrolwyr a'r rhwystrau yn dylanwadu ar sut y caiff theorïau a themâu hyn y rhaglen eu gweithredu ac ar eu heffaith. Dylai hyn alluogi'r gwerthusiad i lunio casgliadau a phrofi damcaniaethau ynghylch y gwahanol ddulliau ac adnoddau sydd eu hangen mewn gwahanol gyd-destunau.

Gellir crynhoi'r dull hwn yn y grid canlynol:

| | Brysbennu ac Asesu | Mynediad at dai | Cymorth pontio + pecyn tai | Cymorth i aros mewn eiddo |
|---|---|---|---|---|
| Defnyddio tystiolaeth | | | | |
| Atal / ymyrraeth gynnar | | | | |
| Blaenoriaethu ailgartrefu cyflym a pharhaol | | | | |
| Canolbwyntio ar yr unigolyn ac ystyriol o drawma | | | | |
| Gweithio cydgysylltiedig / mewn partneriaeth | | | | |